Ordinhad 7
Y Cyngor: Clerc y Cyngor

Corff Cymeradwyo: Y Cyngor

Dyddiad Cymeradwyo: 19 Mawrth 2021

Perchennog y polisi: Ysgrifennydd y Brifysgol

Cyswllt y polisi: Geraint Pugh, gop2@aber.ac.uk / 01970 62 2114

Statws y polisi: Diwygiwyd

Fersiwn: 3.0

Dyddiad adolygu diwethaf: Mawrth 2021

Dyddiad adolygu nesaf: Mawrth 2023

ORDINHAD 7
Y CYNGOR: CLERC Y CYNGOR

1. Os yw swydd Clerc y Cyngor yn wag neu ar fin dod yn wag, penodir i'r swydd yn unol â threfn Recriwtio a Dewis y Brifysgol ac ar yr amodau a'r telerau a bennir gan y Cyngor.

2. Bydd Clerc y Cyngor yn cyflawni unrhyw swyddogaethau a bennir gan y Cyngor, a fydd yn cynnwys y rhai a nodir yn y swydd-ddisgrifiad y cytunwyd arno fel templed gan y sector addysg uwch yng Nghymru (gweler Atodiad A).

ATODIAD A

Templed swydd-ddisgrifiad Clerc Prifysgolion Cymru

Mae effeithiolrwydd y Corff Llywodraethu yn dibynnu ar berthynas waith gadarn a chyfathrebu da rhwng y Cadeirydd, yr Is-ganghellor a'r Clerc. Mae cyfraniad pob un yn sylweddol wrth sicrhau bod y Corff Llywodraethu'n gweithredu'n dda. Heb berthynas dda, mae'n anochel y bydd effeithiolrwydd yr Clerc yn lleihau, gan arwain o bosibl at ddiffyg hyder, a diffyg ymddiriedaeth efallai. Mae perthnasoedd o'r fath hefyd yn cael dylanwad mawr ar sut mae Corff Llywodraethu'n ymddwyn ac yn cyflawni ei fusnes. Lle ceir perthnasoedd cadarnhaol, bydd hyn fel arfer yn amlwg i Gorff Llywodraethu a gall arwain at ddeialog agored, gadarn a heriol (mewn modd adeiladol). I'r gwrthwyneb, lle ceir perthnasoedd gwael, gall y drafodaeth fod yn llawer mwy gwyliadwrus, pwyllog ac aneffeithiol.

1. Penodi ac Adrodd

a) Penodir Clerc y Corff Llywodraethu i'r swydd honno gan y Corff Llywodraethu ei hun, ac yn unol â darpariaethau (os o gwbl) offerynnau llywodraethu cyfreithiol y Brifysgol.

b) Ni waeth am unrhyw gyfrifoldebau eraill a all fod gan y sawl a benodir, mewn perthynas â'u cyfrifoldebau fel Clerc, mae'r Clerc yn gyfrifol i'r Corff Llywodraethu'n unig, mae'n adrodd yn uniongyrchol i Gadeirydd y Corff Llywodraethu mewn perthynas â busnes y Corff Llywodraethu fel y'i diffinnir isod, a chaiff ei werthuso / ei gwerthuso yn unol â phroses a sefydlwyd gan y Corff Llywodraethu

c) Rhaid i'r Corff Llywodraethu sicrhau bod gan yr Clerc lefel briodol o statws ac annibyniaeth i gyflawni'r rôl yn effeithiol.

2. Busnes y Corff Llywodraethu

a) Mae'n ofynnol i'r Clerc roi arweiniad awdurdodol i'r Corff Llywodraethu am ei gyfrifoldebau o dan y siarter, y statudau, yr erthyglau, yr ordinhadau a'r rheoliadau y mae'n ddarostyngedig iddynt, gan gynnwys deddfwriaeth a gofynion y Cyngor Cyllido ac unrhyw reoleiddwyr perthnasol, ac am sut y dylid cyflawni'r cyfrifoldebau hyn.

b) Rhaid i'r Clerc sicrhau bod unrhyw gyfrifoldebau newydd neu ddiwygiedig ar gyfer y Corff Llywodraethu (e.e. yn deillio o ddeddfwriaeth newydd) yn cael eu tynnu i sylw'r Corff Llywodraethu.

c) Mae gan yr Clerc gyfrifoldeb i hysbysu'r Corff Llywodraethu pe bai unrhyw gamau arfaethedig yn mynd y tu hwnt i bwerau'r Corff Llywodraethu neu'n groes i ddeddfwriaeth neu i ofynion y Cyngor Cyllido neu reoleiddwyr eraill.

d) Bydd yr Clerc yn gyfrifol am gynghori Cyrff Llywodraethu mewn perthynas ag adrodd yn ffurfiol am ddigwyddiadau difrifol i'r Comisiwn Elusennau a rheoleiddwyr eraill fel sy'n briodol.

e) Bydd yr Clerc yn rheoli Datgeliadau Budd Cyhoeddus ar ran y Corff Llywodraethu.

f) Yr Clerc sy'n llwyr gyfrifol am gaffael neu ddarparu cyngor cyfreithiol i'r Corff Llywodraethu a bydd yn cael cyllideb at y diben hwnnw, ac am gynghori'r Corff Llywodraethu ar bob mater gweithdrefnol.

g) Rhaid i'r Clerc (gan weithio gydag aelodau o'r Pwyllgor Gweithredu) sicrhau bod pob gwybodaeth a dogfennaeth a ddarperir i aelodau'r Corff Llywodraethu yn gryno a bod eu cynnwys yn briodol.

h) Bydd yr Clerc hefyd yn gweithredu fel Clerc i Bwyllgorau'r Corff Llywodraethu neu'n gyfrifol am sicrhau bod cefnogaeth glerigol ddigonol yn cael ei darparu i Bwyllgorau'r Corff Llywodraethu a bydd yn cael cyllideb at y diben hwnnw.

i) Bydd yr Clerc yn cadw Cofrestr Buddiannau aelodau'r Corff Llywodraethu ac unrhyw bersonau eraill y mae'r Corff Llywodraethu'n gofyn am ddatganiad o fuddiant ganddynt. Er bod yr aelodau ac eraill yn gyfrifol am ddatgan unrhyw wrthdaro buddiannau neu unrhyw bosibilrwydd i hynny ddigwydd, bydd yr Clerc yn gyfrifol ac yn atebol am dynnu sylw Cadeirydd y Corff Llywodraethu at faterion yn ymwneud ag annibyniaeth neu wrthdaro.

j) Bydd yr Clerc yn gyfrifol am fod â Sêl y Brifysgol yn ei feddiant / ei meddiant ac am y defnydd priodol a wneir ohono.

k) Bydd yr Clerc yn gyfrifol am drefnu rhaglen gynefino ar gyfer aelodau newydd o'r Corff Llywodraethu a bydd yn tynnu sylw aelodau'r Corff Llywodraethu at weithgareddau hyfforddi a drefnir yn fewnol a chan ddarparwyr allanol priodol.

l) Bydd yr Clerc yn trefnu bod aelodau'r Corff Llywodraethu yn cael eu digolledu am y costau y byddant yn ei gael wrth gyflawni busnes y Corff Llywodraethu a darperir cyllideb at y diben hwnnw.

3) Perthynas Weithio a Gwrthdaro Buddiannau

a) Gall yr Clerc gyfuno swyddogaeth Clerc ag uwch rôl weinyddol neu reolaethol yn y Brifysgol a rhaid cymryd gofal wrth wahanu'r ddwy swyddogaeth hyn. Bydd y Corff Llywodraethu'n adolygu, bob tair blynedd o leiaf, a oes perygl bod annibyniaeth swydd yr Clerc yn cael ei chyfaddawdu.

b) Os yw'r Clerc yn gweld unrhyw wrthdaro buddiannau rhwng y gwahanol swyddogaethau, bydd yr Clerc yn adrodd am hynny ar unwaith i'r Corff Llywodraethu. Os yw'r Corff Llywodraethu'n credu ei fod wedi nodi gwrthdaro buddiannau o'r fath, cynigir cyfle i'r Clerc (a'r Is-ganghellor) ymateb i gwestiwn o'r fath.

c) Bydd yn ofynnol i'r Clerc ffurfio perthnasoedd gwaith effeithiol gyda Chadeirydd y Corff Llywodraethu a'r Is-ganghellor. Bydd yr Clerc yn ymgynghori ac yn hysbysu'r Is-ganghellor am unrhyw fater priodol sy'n ymwneud â busnes y Corff Llywodraethu.

d) Bydd yn ofynnol i'r Clerc gynghori'r Cadeirydd mewn perthynas ag unrhyw faterion lle gall gwrthdaro, posibl neu real, ddigwydd rhwng y Corff Llywodraethu a'r Is-ganghellor.

e) Bydd yn ofynnol i'r Clerc ffurfio perthnasoedd gwaith effeithiol ag uwch reolwyr eraill yn y Brifysgol i hwyluso cynnal busnes y Corff Llywodraethu'n effeithiol. Waeth beth yw rôl ehangach yr Clerc yn y Brifysgol, disgwylir y bydd ymwneud yr Clerc â thrafodaethau strategol yn y Brifysgol yn ddigonol i alluogi'r Clerc i ddarparu arweiniad i'r Corff Llywodraethu yn ôl yr angen.

f) Rhaid i'r Clerc ddatgelu buddion personol yn y Gofrestr yn llawn ac yn amserol.

g) Bydd y Corff Llywodraethu'n diogelu gallu'r Clerc i gyflawni'r swydd.

4. Materion eraill

a) Bydd gan yr Clerc ddealltwriaeth dda o werthoedd, nodau ac amcanion y Brifysgol ac ymrwymiad iddynt.

b) Bydd yr Clerc yn gweithredu yn unol â safonau ymddygiad derbyniol mewn bywyd cyhoeddus, gan werthfawrogi anhunanoldeb, uniondeb, gwrthrychedd, atebolrwydd, didwylledd, gonestrwydd ac arweinyddiaeth, a chynnal cyfrinachedd fel y bo'n briodol.

c) Bydd yr Clerc yn cymryd rhan mewn gweithdrefnau a sefydlwyd gan y Corff Llywodraethu ar gyfer gwerthuso / adolygu perfformiad yn rheolaidd. Bydd y gweithdrefnau hyn ar wahân i weithdrefnau ar gyfer gwerthuso / adolygu unrhyw gyfrifoldebau eraill sydd gan yr Clerc a dylid adrodd yn eu cylch i bwyllgor priodol y Corff Llywodraethu.

d) Bydd yr Clerc yn cymryd rhan ragweithiol mewn gweithgareddau datblygiad proffesiynol priodol ac mewn rhwydweithiau sector sy'n berthnasol i'r rôl a bydd yn cael ei benodi/ei phenodi gan y Brifysgol yn aelod o Gymdeithas Penaethiaid Gweinyddiaethau Prifysgolion.